# Rhyngweithio dwys

Mae rhyngweithio yn rhan hanfodol o gyfathrebu. Er mwyn i gyfathrebu weithio, mae angen iddo fod yn broses ddwyffordd, ond i rai plant mae rhyngweithio yn anodd. Yn gyntaf, mae angen iddyn nhw ddysgu achos ac effaith trwy eu hymdrechion cyfathrebu e.e., maen nhw'n gwneud rhywbeth ac maen nhw'n cael ymateb.

Cynlluniwyd y strategaeth i helpu plant sydd yn y camau cynnar o ddatblygu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol. Mae'n ymwneud â gwylio'n ofalus sut mae plentyn yn ymateb i wahanol sefyllfaoedd trwy iaith y corff, llais a mynegiant wyneb - ac ymateb i hyn.

Mae'n ddull hwyliog, sy'n dilyn arweiniad y plentyn.

## Beth ddylwn i ei wneud?

- Tiwnio i mewn a bod ar gael
- Newid fy llais, fy sylliad neu iaith y corff
- Trin pob gweithred/sain fel cyfathrebu
- Ymateb yn gyflym i unrhyw adborth gan y plentyn a dehongli
- Defnyddio amseru a rhythm o fewn y rhyngweithiadau
- Bod yn ymlaciol a chymryd amser i fwynhau rhannu'r lle hwn gyda'ch plentyn



## Syniadau chwarae a theganau

- Chwaraewch gemau cosi gyda synau uchel a gweld a yw'r plentyn yn rhagweld y cosi.
- Gwnewch sŵn gollwng gwynt ar eu boch, clapiwch eu dwylo a rhwbiwch eu gwallt.
- Rhowch y teganau a restrir isod o amgylch y llawr a gadewch i'r plentyn edrych arnynt, pan fydd rhywbeth yn denu ei sylw ymunwch trwy gopïo'r hyn y mae'r plentyn yn ei wneud.

Mae teganau fel **matiau dŵr**, **offerynnau**, **gwrthrychau sgleiniog**, **teganau troelli**, **teganau sy'n codi'n sydyn** a **theganau sy'n goleuo** i gyd yn ysgogol iawn i'r plentyn.

**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos isod.**

SCAN ME

SCAN ME

https://www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi

**Sut?**

**Copïwch y seiniau, y symudiadau a'r wynebau rydw i'n eu gwneud.**

**Os ydych chi'n fy ngweld yn chwarae ar fy mhen fy hun, ymunwch a chwaraewch gyda mi.**

## Rhoi ar waith

- Dewiswch amser i chwarae heb fod unrhyw beth yn tynnu sylw.
- Dewch o hyd i le addas i chwarae
- Ymunwch drwy gopïo seiniau, symudiadau neu fynegiadau wyneb y mae'r plentyn yn eu gwneud
- Os nad yw'ch plentyn yn dangos unrhyw ddiddordeb yn y teganau, gwnewch eich hun yn gyffrous
- Parhewch i chwarae nes bod y plentyn yn rhoi signal ei fod wedi cael digon

## Symud ymlaen…

Pan fyddwch chi'n teimlo eich bod yn hyderus gyda'r strategaeth hon, nesaf, ceisiwch gyflwyno **Gemau Pobl**. Man cychwyn gwych yw trwy arwyddo rhigymau gweithredu, fel, ***row row row your boat*** a ***round and round the garden***.